# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Addasiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2020** |
| **DYDDIAD** | **14 Hydref 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Addasiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2020**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio:**

Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018
Deddf Dehongli 1978
Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019
Deddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (Yr Alban) 2010
Deddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954
Rheoliadau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Addasiadau, Diddymiadau a Dirymiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2019
Gorchymyn Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (Darpariaethau Cymwys yr UE) 2013.

Mae'r Offeryn Statudol hefyd yn gwneud nifer o ddiddymiadau technegol i ddarpariaethau diangen mewn deddfwriaeth sylfaenol o ganlyniad i ddiddymiadau a wnaed gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Diben y diwygiadau**

1. Diben y diwygiadau yw sicrhau bod llyfr statud y DU yn gweithio'n gydlynol ac yn effeithiol ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Mae'n egluro sut y dylid dehongli rhai termau, gan gynnwys diffiniadau sy'n gysylltiedig â'r UE, mewn deddfwriaeth ddomestig ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Mae'r OS yn diwygio Deddf Dehongli 1978 a'r Deddfau Dehongli cyfatebol a basiwyd gan y deddfwrfeydd datganoledig (gan gynnwys Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019) mewn perthynas â dehongli cyfeiriadau at "gyfraith berthasol y cytundebau gwahanu". Mae'r OS hefyd yn diwygio Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i ddarparu ar gyfer sut y dylai cyfeiriadau presennol at

offerynnau'r UE sy'n rhan o gyfraith berthnasol y cytundebau gwahanu, a chyfeiriadau annewidiadwy presennol at ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE, gael eu darllen ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Mae'r Offeryn Statudol yn gwneud darpariaethau dehongli newydd yng ngoleuni Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020, i gael gwared ag ansicrwydd ynghylch pa fersiwn o offeryn yr UE sy'n gymwys, ac yn darparu glòs cyffredinol i sicrhau bod y dehongliad cywir o offeryn yr UE yn gymwys. Yn olaf, mae'r OS yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Addasiadau, Diddymiadau a Dirymiadau Canlyniadol) (Ymadael â’r UE) 2019 a diddymiadau technegol i ddarpariaethau segur mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n deillio o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob diwygiad, ar gael yma: https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348213102/contents

**Unrhyw effaith y gallai’r offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd nac ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Y gofynion o ran cydsyniad**

Bydd yr OS hwn yn cael ei wneud o dan adran 23 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac adran 41 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020, sef y pwerau canlyniadol yn y naill a’r llall o’r Deddfau, sy'n arferadwy gan Weinidogion y Goron. Felly, nid yw'r OS yn cychwyn proses gydsynio ffurfiol gyda Gweinidogion y Llywodraethau Datganoledig.

Yr hyn fyddai orau gennym ni, o ddigon, fyddai bod cyfreithiau a wnaed yng Nghymru yn cael eu diwygio yng Nghymru fel rhan o'r broses o ymadael â’r UE. Fodd bynnag, nid yw’r pwerau cyfatebol wedi’u rhoi i Weinidogion Cymru.  Gan fod yr OS yn gwneud diwygiadau technegol, nad oes iddynt unrhyw oblygiadau o ran polisi, ac o gofio bod yn rhaid i'r diwygiadau fod ar waith erbyn diwedd y flwyddyn, ystyrir ei bod yn hwylus i Lywodraeth y DU wneud darpariaeth ar ran holl wledydd y DU i sicrhau bod llyfr statud gweithredol ar ddiwedd y cyfnod pontio. Yr unig ddewis arall fyddai ei gwneud yn ofynnol i ddeddfwriaeth sylfaenol fynd drwy Senedd Cymru a chael ei deddfu erbyn diwedd y flwyddyn, ac ni fyddai hynny'n ddefnydd cymesur o amser ac adnoddau. At hynny, mae gwneud y diwygiadau canlyniadol angenrheidiol mewn un offeryn yn helpu i wneud y gyfraith yn fwy hygyrch yn ystod y cyfnod hwn o newid.

Cyfrannodd swyddogion Llywodraeth Cymru at y gwaith o ddrafftio'r OS ac mae'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd wedi ysgrifennu at Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn i ddweud y dylid bod wedi ceisio cydsyniad ffurfiol.

Fodd bynnag, mae Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn cael ei osod a bydd cyfle i'r Senedd gydsynio i'r newidiadau technegol i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.